

CYFARFOD: PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

DYDDIAD: 17 HYDREF 2019

**TEITL: CYLLIDEB REFENIW 2019/20 –
ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2019**

PWRPAS: Adroddiad Monitro ar y Sefyllfa Ariannol Ddiweddaraf

**GWEITHREDIAD: Derbyn y wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r
tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu
penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r
Cyngor a'i adrannau.**

SWYDDOG CYSWLLT: FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID

AELOD CABINET: CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Cyllideb Refeniw 2019/20 – Adolygiad Diwedd Awst 2019) i'r Cabinet ar 15 Hydref 2019.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:

Cyllideb Refeniw 2019/20 – Adolygiad Diwedd Awst 2019 (Cabinet 15/10/2019)